

Cofnodion Cyngor Cymuned Pennal.

Cyhalwyd: Canolfan Pennal, 27 Hydref 2021.

Ymddiheiriadau: Dewi Owen a Rhys Parry

Materion yn codi: Trafodwyd rhain yn fanwl.

Wedi archebu dwy fainc i'r pentref. Diolchwyd i Kenneth Griffiths am eu lleoli o gwmpas y pentref, un ger y toiledau a'r llall ger y ciosg wrth y fynwent.

Cais Cynllunio i godi Tai ger Maesteg: Wedi ymateb i'r cais yma fe dderbyniwyd ymateb gan Uwch Swyddog Datblygu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Iona Roberts.

“Cadarnhaf mai cais ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer pobl lleol yw hwn. Os bydd y cais yn llwyddianus bydd yn amodol fod yr ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb Adr Cynllunio Atodol yr Awdurdod4 (SPG4) ar Dai Fforddiadwy.

Gwneir Cytundeb Adran106 i sicrhau bod y tai yn parhau i fod yn fforddiadwy ac ar gael i bobl lleol yn y lle cyntaf ac am byth.”

Diolchwyd am yr ymateb gan Iona Roberts.

Sul y Cofio:

Derbyniwyd torch y Pabi Coch. Gan nad oedd y Cadeirydd yn medru bod yn bresenol cytunodd Aled Rees i ymgymryd ar gwaith o osod y dorch ar ran y Cyngor. Cynigiwyd gan Aled Rees, ac eiliwyd gan James Bruton ein bod yn talu £30 i apel y Pabi Coch.

Archwiliad Mewnol: Talwyd £126 i Cyngor Gwynedd am yr archwiliad.

Talu Cyflog y Clerc: Cynigiwyd gan William Rees, ac eiliwyd gan Aled Rees bod y Cyngor yn gwneud hyn.

Hysbysfyrddau Newydd: Bydd James Brunton yn cysylltu gyda Heather Mitchell i gael y diweddaraf am y mater.

Trafod dyfodol Gwesty Glanyrafon: Mae'r gwesty ar werth, ac mae syniad wedi ei roi gerbron a fyddai diddordeb gan y gymuned ei brynu a'i redeg. Wedi trafod tipyn a gwranddo ar ffeithiau a chynlluniau penderfynwyd ehangu y drafodaeth i'r Gymued gyfan trwy gynnal Cyfarfod Cyhoeddus i drafod y cynnig ac i weld a oes gan y trigolion lleol ddiddordeb yn y fente. Trefnir y cyfarfod yn fuan.

Fe fydd llythyr gwybodaeth ac holiadur yn cael ei yrru i bob cartref yn y gymuned, gyda Gwybodaeth pellach.

Cadw'r Toiledau ar agor dros y gaeaf: Cynigiwyd gan Aled Rees ein bod talu i gadw'r toiledau ar agor. Eiliwyd gan James Brunton. Cost £4,000.

Ers tair blynedd mae'r Cyngor wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd i naill ai peintio'r toiledau neu adael i'r Cyngor Cymuned eu peintio. Rydym yn dal i aros. Mae hyn mor anheg gan eu bod wir angen eu tacluso a'u huwchraddio.

Cylch y Marian: Ychydig mwy o waith angen ei wneud cyn ei gwblhau.

Perchenogion ty rhif 1 Rhys Teras ger mynedfa i'r Fynwent: Mae angen diolch iddynt am gadw'r fynedfa i'r fynwent yn agored ond bydd angen eu hatgoffa bod seromoni Sul y Cofio yn digwydd ger y senetaff dydd Sul Tachwedd 14<sup>eg</sup>.